LEARNING AND WORK INSTITUTE

# Adroddiad effaith 2024-25



learningandwork.org.uk

# Cynnwys

03 Rhagair

04 Ein cenhadaeth
05 Ein blaenoriaethau
06 Pam ein bod ni yma
08 Llunio polisi
10 Datblygu datrysiadau
15 Ein cyrraedd mewn rhifau
16 Dod â phobl ynghyd
17 Ein cyllidwyr

# Rhagair



**Rydym yn byw mewn cyfnod o argyfyngau lluosog ac economi marwaidd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i lawer o bobl ddod â deupen llinyn ynghyd ac mae wedi gadael llawer o wasanaethau cyhoeddus dan bwysau. Rhaid i ehangu mynediad i ddysgu, sgiliau a chyflogaeth fod yn rhan greiddiol o'r ateb i'r heriau hyn. Buom yn gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gyflwyno'r achos hwn a dangos y gwahaniaeth y gall dysgu, sgiliau a chyflogaeth ei wneud i'r heriau hyn.**

Rydym yn falch fod y Llywodraeth newydd wedi mabwysiadau ein galwadau am uchelgais o gyfradd cyflogaeth o 80% a Gwarant i Bobl Ifanc fel y caiff pob person ifanc gynnig help i ganfod swydd, lle hyfforddiant neu brentisiaeth. Fe wnaethom ddangos sut y gallai hynny hybu'r economi ac arbed arian i drethdalwyr. Cyflenwi yw'r her yn awr a rydym yn helpu i ddeall sut mae'r heriau sylfaenol yn amrywio ar draws y wlad ac adeiladu'r sylfaen tystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio. Fe wnaethom hefyd sicrhau cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Sefydliad Dyfodol Ieuenctid/Youth Futures Foundation i'n treialon blaenllaw i helpu tenantiaid tai cymdeithasol i waith yn seiliedig ar ddulliau llwyddiannus yn yr Unol Daleithiau.

Fe wnaethom barhau ein gwaith ar ddysgu gydol oes. Dengys ein Harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu, a gynhaliwyd am flynyddoedd lawer, fod un mewn dau oedolyn wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o ddysgu yn y tair blynedd diwethaf, a sbardunwyd gan ddysgu hunangyfeiriedig ac anffurfiol. Mae hyn yn ffigur uwch nag erioed ac yn galonogol ond mae anghydraddoldeb amlwg iawn yn parhau. Ymhellach, mae llai o fuddsoddiad gan y Llywodraeth a chyflogwyr yn golygu bod llai o gyfleoedd ffurfiol i bobl gymryd rhan yn y dysgu hwnnw. Gwnaethom ddangos fod y tebygrwydd o gymryd rhan mewn dysgu yn gostwng gan bedwar pwynt canran am bob blwyddyn po hynaf yr ydych: a mae ein poblogaeth heneiddiol yn ei gwneud hyd yn oed yn bwysicach mynd i'r afael â hynny.

Dangosodd ein gwaith hefyd fod y Deyrnas Unedig mewn risg o syrthio ymhellach tu ôl i wledydd eraill yn arbennig ar lefel cymwysterau is a chanolradd. Drwy ein rhaglen Ambition Skills, a gefnogir gan City & Guilds a NONC, fe wnaethom ddangos y caiff hyn ei yrru yn neilltuol gan fwy o anghydraddoldeb rhanbarthol nag mewn llawer o wledydd Ewropeaidd. Bydd y rhaglen yn awr yn edrych sut y gallwn newid hynny a'r wobr economaidd a chymdeithasol dros wneud hynny.

Rydym bob amser yn anelu i sicrhau cydbwysedd rhwng codi heriau a dangos datrysiadau. Mae'r Wythnos Addysg Oedolion a gwobrau Ysbrydoli! yng Nghymru bob a'r Ŵyl Ddysgu yn Lloegr bob amser yn uchafbwyntiau i ni, gan roi sylw i ddysgwyr gwych a dathlu eu llwyddiannau.

Fel bob amser, gwyddom na fyddai dim o hyn yn bosibl heb ein hymddiriedolwyr a thîm rhagorol ac ymroddedig. Diolchwn iddynt am eu gwaith dros y flwyddyn.

Beth bynnag a ddaw'r flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros ddysgu sgiliau a chyflogaeth, adeiladu'r sylfaen tystiolaeth, llunio polisi a phrofi ffyrdd newydd o weithio.

**Jeremy Moore, Cadeirydd y Bwrdd a Stephen Evans, Prif Weithredwr**



# Ein cenhadaeth

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol sydd â'i ffocws ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell.

**Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial.**

Rydym yn ymchwilio'r hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer.

Mae cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd wrth galon popeth a wnawn wrth i ni weithio tuag at gymdeithas deg a llewyrchus.



# Ein blaenoriaethau

Mae gan ein cynllun strategol ar gyfer 2024-29 ffocws ar bedair blaenoriaeth:




## Dysgu gydol oes

Mae dysgu yn dda ar gyfer gyrfaoedd, iechyd a llesiant, ymgysylltu dinesig a llawer mwy. Ond er bod pobl yn gynyddol yn ymwneud â dysgu yn annibynnol, bu gostyngiad mewn cyfleoedd mwy ffurfiol i oedolion ddysgu. Mae rhai grwpiau – tebyg i bobl hŷn, rhai sydd allan o waith, pobl gyda lefelau is o gymwysterau – yn llawer llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu na grwpiau eraill.



## Sgiliau hanfodol

Mae gan un ym mhob pump oedolyn lythrennedd neu rhifedd isel, a chafodd galluoedd creiddiol tebyg i hynny a llythrennedd ariannol, iechyd a dinasyddiaeth eu dosbarthu'n anghyfartal rhwng grwpiau demograffig. Mae hyn yn llesteirio cyfleoedd bywyd pobl ac yn waeth nag mewn gwledydd tebyg.



## Cyflogaeth

Mae cyfradd cyflogaeth y Deyrnas Unedig yn gymharol uchel yn ôl safonau rhyngwladol, ond mae ymhell o fod y gorau yn y byd yn arbennig oherwydd bod gan rai grwpiau, tebyg i bobl anabl a rhannau o'r wlad gyfraddau cyflogaeth llawer is na'r cyfartaledd. Byddai helpu mwy o bobl i waith yn dod â buddion economaidd, yn gwella cyllid cyhoeddus ac yn hwb i safonau byw a chyfleoedd bywyd.



## Gwaith gwell

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon gyda'u gwaith ac mae ystod hyblyg o gyfleoedd cyflogaeth yn rhoi mwy o gyfle i bobl ganfod gwaith sy'n gweddu iddynt. Ond byddai'n well gan rai pobl gael gwaith sydd â mwy o sicrwydd ond maent yn methu dod o hyd i hynny: gall canfod hyblygrwydd fod yn stryd un-ffordd o blaid cyflogwyr. Ymhellach, er cynnydd yn yr isafswm cyflog mae llawer o bobl mewn gwaith yn ei chael yn anodd dod â deupen llinyn ynghyd, a llawer o bobl yn canfod eu hunain yn methu symud ymlaen o waith cyflog isel, yn aml yn gysylltiedig gyda chefndir economaidd-gymdeithasol.



## Erbyn 2040 mae ein gweledigaeth yn golygu y byddai:

- Mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu, gan gyflawni hyn drwy ostwng anghydraddoldeb yn sylweddol rhwng grwpiau ac ardaloedd.
- Pawb â'r sgiliau galluoedd hanfodol fel llythrennedd, rhifedd a digidol maent eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith.
- Y Deyrnas Unedig â'r gyfradd gyflogaeth uchaf yn y G7, gyda 80% o oedolion oedran gwaith mewn gwaith, gan gyflawni hyn drwy gulhau'r bylchau cyflogaeth rhwng grwpiau ac ardaloedd.
- Mwy o bobl mewn gwaith sy'n diwallu eu hanghenion, gan gefnogi llesiant, datblygu a safonau byw da.

# Pam ein bod ni yma

Cliciwch ar bob ffeithlun am ragor o wybodaeth




## Mae un ym mhob dau oedolyn yn dweud eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu, gyda'r diddordeb yn cynyddu drwy gydol y pandemig

Ond mae gwahaniaethau amlwg iawn yn ôl oedran a dosbarth, ac mae toriadau yn golygu y gall pobl yn aml fod heb lwybrau ar gyfer dysgu ffurfiol.

## Mae'r Llywodraeth wedi torri buddsoddiad yn Lloegr gan £1 biliwn (20%) ers 2010.

Mae cyflogwyr yn gwario 26% yn llai ar hyfforddiant fesul gweithiwr mewn gwir dermau o gymharu â 2005 ac yn dair gwaith yn fwy tebygol o hyfforddi graddedigion ag o hyfforddi gweithwyr heb radd.








## Mae 63% yn llai o oedolion yn gwella eu llythrennedd a'u rhifedd bob blwyddyn nag yn 2013/14.

Ar y tueddiadau presennol byddai'n cymryd o leiaf 20 mlynedd i bob oedolyn sydd angen help i gael hynny.

## Erbyn 2035, rydym ar y trywydd i un mewn tri o bobl fod â chymhwyster lefel 2 fan orau.

Byddai hyn yn ein rhoi yn y 29ain lle allan o 39 o wledydd OECD, bron yn union yr un fath a'n safle yn nhabl y gynghrair heddiw.




## Rydych deirgwaith mor debyg i fod â chymhwyster dan lefel 2 os ydych yn byw yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr nag os ydych yn byw yng Ngorllewin Llundain. Mae gwahaniaethau sgiliau rhanbarthol yn fwy yn y Deyrnas Unedig nag yn Ewrop.

Mae Llundain a de ddwyrain Lloegr yn cyfateb gwledydd sy'n arwain y byd fel Canada, Japan a De Korea; mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ar y trywydd i gael eu goresgyn gan Latvia, Estonia a Seland Newydd.




**Gallai dyblu cyfraddau cyrhaeddiad oedolion, yn ôl i lefelau 2010, hybu'r economi gan o leiaf £23 biliwn y flwyddyn, fyddai angen buddsoddiad ychwanegol o £1.9 biliwn y flwyddyn gan bobl, cyflogwyr a'r Llywodraeth.**

**Nid yw tri mewn pump o bobl ifanc (58%) nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) erioed wedi bod â swydd ar dâl ac mae bron eu hanner (48%) yn dal heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant flwyddyn ar ôl iddynt gyntaf ddod yn NEET.**




**Mae cyfleoedd addysg a chyflogaeth pobl ifanc yn dal i ddibynnu ar ble maent yn byw.**

Mae cyfraddau NEET bron ddwywaith mor uchel yng Nghymru (15%) a Gogledd Ddwyrain Lloegr (16%) ag ydynt yn Llundain (9%) a De Ddwyrain Lloegr (10%). Yn Llundain mae 16 o'r 20 ardal orau ar gyfer cyfleoedd i bobl ifanc.





**Mae un ym mhob pump o bobl sy'n economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor yn dweud eu bod eisiau swydd, ond dim ond 1% sydd mewn gwaith chwe mis yn ddiweddarach.**

Gallai diwygio'r system budd-daliadau yn llwyddiannus helpu 500,000 yn fwy o bobl i waith dros ddeng mlynedd. Byddai hyn yn rhoi hwb o £8 biliwn y flwyddyn i'r economi ac yn arbed £4 biliwn y flwyddyn i drethdalwyr.


Cliciwch ar bob ffeithlun am ragor o wybodaeth



**5%**
**OEDOLION**

**Mae tua 5% o oedolion (dwy filiwn o bobl) yn newid sector neu alwedigaeth bob blwyddyn.**

Ar gyfartaledd, mae eu cyflogau yn gostwng gan £3,731 bob blwyddyn, ar ben unrhyw gostau ailhyfforddi. Mae gyrfaoedd 50 mlynedd yn golygu y bydd angen i fwy o bobl ailhyfforddi, mae angen i ni eu helpu gyda'r costau ariannol.



# Llunio polisi

Rydym yn annog datblygu polisi seiliedig ar dystiolaeth ac yn defnyddio ein dealltwriaeth i wella dyluniad a chyflenwi gwasanaeth. Mae uchafbwyntiau yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 2024-5 yn cynnwys:



- Y Llywodraeth newydd yn mabwysiadu ein cynigion am uchelgais cyfradd cyflogaeth o 80%, Ardoll Sgiliau mwy hyblyg, Gwarant i Bobl Ifanc a mwy o ddatganoli.
- Dylanwadu ar gynlluniau'r Llywodraeth i wella cymorth cyflogaeth, yn cynnwys £1 biliwn ychwanegol o fuddsoddiad a chyflwyno sgyrsiau cymorth newydd i ymchwilio dyheadau pobl a'u helpu i gael mynediad i gymorth sy'n iawn ar eu cyfer.
- Sefydu ac arwain partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Sefydliad Dyfodol Ieuenctid, Cymunedau sy'n Gweithio, y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, MDRC a naw cymdeithas tai i brofi dull cymorth cyflogaeth sy'n seiliedig yn y gymuned.
- Dylanwadu a llywio datblygu polisi cyllideb addysg oedolion wedi'i ddatganoli yn Llundain Fwyaf, Gorllewin Canolbarth Lloegr ac awdurdodau maerol cyfunol eraill, drwy amrywiaeth o brosiectau ymchwil a gwerthuso. Yn ychwanegol, fe wnaethom gefnogi Rhanbarth Dinas Lerpwl i feddwl sut y gallai sgiliau gefnogi eu strategaeth gweithlu blynyddoedd cynnar.
- Sicrhau ymrwymiad gan Medr am Fforwm Llais Dysgwyr sy'n adlewyrchu oedolion sy'n ddysgwyr yng Nghymru..

- Datblygu ansawdd ac ymarfer mewn addysg oedolion yng Nghymru drwy'r Teclyn Effeithlonrwydd Addysg Oedolion a gafodd ei fabwysiadu gan Medr.

- Parhau i ddylanwadu ar syniadau ar sut i wrthdroi'r dirywiad mewn buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau, wedi ei seilio ar ein hymchwil a gyllidwyd gan Sefydliad Nuffield a Sefydliad Elusenol Gatsby.

- Adeiladu cefnogaeth ar gyfer ein hymgyrch i newid y rheol 21 awr, sy'n atal oedolion ifanc sy'n ofalwyr ac yn astudio am fwy na 21 awr yr wythnos rhag hawlio Lwfans Gofalwyr, yn cynnwys cyswllt gyda'r Gweinidog Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd.

- Cefnogi ymadawyr gofal i gysylltu gyda'u cynghorwyr lleol. Bu nifer yn llwyddiannus wrth ddylanwadu ar gynghorau lleol i gydnabod statws gofal fel nodwedd warchodedig.

- Nifer o Bwyllgorau yn gofyn i ni roi tystiolaeth, yn cynnwys Pwyllgor Diwydiant a Rheoleiddwyr Tŷ'r Arglwyddi ar bolisi sgiliau, Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi ar rifedd oedolion ac addysg mathemateg, a Phwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar Weithio yn y Cartref ar effaith gweithio gartref ar wahanol grwpiau.

- Helpu i lunio agenda a blaenoriaethau nifer o Grwpiau Seneddol Hollbleidiol, yn cynnwys y Grwpiau ar gyfer gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr, a diweithdra ieuenctid.



# Datblygu datrysiadau

Dyma giplun o'n **gwaith ymchwil a datblygu** eang. Rydym yn falch i weithio gyda llywodraeth genedlaethol a lleol, busnesau ac elusennau, gan gadw ein henw da am ymchwil a dadansoddiad ansawdd-uchel.

## Dysgu gydol oes

Yn ei 28ain flwyddyn, dangosodd ein **Harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu**, ar ôl degawd o ddirywiad yn ystod y 2010au, fod cyfranogiad mewn dysgu wedi cynyddu am y drydedd blwyddyn yn olynol. Dywedodd ychydig dros hanner oedolion (52%) eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd diwethaf – y gyfradd uchaf ers dechrau'r arolwg yn 1996. Cafodd y cyfranogiad uwch ers y pandemig ei sbarduno gan gynnydd mewn dysgu hunangyfeiriedig, yn cynnwys ar-lein, am resymau personol neu hamdden. Mae hyn yn gadarnhaol, ond mae angen i lywodraeth leol a chenedlaethol, cyflogwyr ac eraill wneud yn siŵr fod gan oedolion hefyd lwybrau i ddysgu mwy ffurfiol ac achrediad lle dymunant hynny a lle byddai hynny o fudd iddynt. Mae'r arolwg yn parhau i ddangos anghydraddoldeb amlwg iawn yn y rhai sy'n cymryd rhan mewn dysgu, gan olygu fod llawer mwy i'w wneud i sicrhau mynediad teg i gyfleoedd.

Drwy ein **partneriaeth strategol aml-flwyddyn** gyda Ufi VocTech Trust rydym yn parhau i gefnogi mabwysiadu a defnyddio technoleg i helpu pob oedolyn y Deyrnas Unedig i gael y sgiliau maent eu hangen i gymryd rhan a manteisio o'r trawsnewid yn yr economi. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda phedwar lle ar draws y Deyrnas Unedig i brofi a dysgu beth sy'n gweithio i gynyddu cyfranogiad oedolion mewn dysgu.

Fe wnaethom brofi ffyrdd o helpu pobl i ailsgilio a newid gyrfa drwy bedwar cynllun peilot yng Nghymru, Caeredin, Belfast a Tees Valley fel rhan o'n rhaglen **Dyfodol Newydd**. Mae ein gwaith **gwerthuso** a pholisi wedi arwain at **argymhellion** ar gyfer cefnogi pobl sy'n newid gyrfa ar draws y Dernas Unedig.

Mae ein prosiect **Driving Change in Higher Education** yn cefnogi 15 prifysgol yn Lloegr i gyflwyno polisïau newydd a chymorth i wella deilliannau oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr mae ein **hymgyrch** i eithrio oedolion ifanc sy'n ofalwyr o'r rheol 21 awr yn y system budd-daliadau wedi sicrhau cefnogaeth dda ac yn codi ymwybyddiaeth o'r heriau y mae oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn eu hwynebu wrth gael mynediad i addysg bellach.

Drwy ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru, fe wnaethom ddatblygu **Teclyn Ymarfer Effeithlon** ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio gydag Estyn ac arweinwyr partneriaethau ledled Cymru, gan arwain at adnodd sy'n cefnogi datblygiad strategol eu cyflenwi ac i gynorthwyo cynllunio gyda Medr.

Fe wnaethom gefnogi partneriaeth o ddarparwyr addysg oedolion i ymuno â phrosiect a ariannwyd gan Taith a gysylltodd ag Aontas yn Iwerddon i ymchwilio cyfleoedd i ddatblygu llais ac ymgysylltu dysgwyr. Bydd datblygu llais dysgwyr yn faes allweddol o waith gyda Medr yn 2025.
Fe wnaeth ein ffocws ar Ddysgu fel Teulu barhau, gan weithio gyda darparwyr a Llywodraeth Cymru i lunio fframwaith sy'n codi ymwybyddiaeth o effaith cyflenwi.

# Eirioli dros addysg oedolion

Mae ymgyrchoedd y Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi dangos buddion addysg oedolion am fwy na 30 mlynedd, gan ysbrydoli cynlluniau eraill ym mhedwar ban byd.

Yn Lloegr, cafodd yr Ŵyl Ddysgu ei chefnogi gan NOCN, City Lit, y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant a'r Grŵp Sgiliau ac Addysg.

Cyhoeddwyd enwau'r enillwyr gwobrau ym mis Gorffennaf, a chafodd y 12 enillydd a 4 yn y rownd derfynol eu dethol o dros 250 enwebiad Cafodd straeon am enillwyr y gwobrau sylw gan wasg y sector ac yn y wasg leol. Cynhaliwyd yr Wythnos Dysgu Gydol Oes rhwng 4 a 8 Tachwedd 2024. Yn ystod yr wythnos, fe wnaethom gyhoeddi 28ain rhifyn ein Harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Addysg blynyddol, cynhaliwyd gweminarau am oedolion hŷn am sgiliau hanfodol a dysgu gyda thechnoleg ynghyd â digwyddiad ar gefnogi cyfleoedd addysg oedolion ifanc sy'n ofalwyr, a fynychwyd gan Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Anne, Noddwr Dysgu a Gwaith.

Buom yn gweithio gydag Awdurdod Cyfunol Gorllewn Canolbarth Lloegr (WMCA) i gyflwyno eu **Gwobrau Addysg Oedolion** am yr eildro, gyda seremoni ym mis Mehefin 2024. Fe wnaethom hefyd weithio gyda'r tîm yn Neuadd y Ddinas i gyflwyno **Gwobrau Addysg Oedolion Maer Llundain** am y trydydd tro, gyda dathliad ym mis Tachwedd ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr a'u cefnogwyr.

Yng Nghymru, fe wnaethom gydlynu rhwydwaith o bartneriaid i gyflwyno digwyddiadau ar lawr gwlad a gweithgaredd hyrwyddo ar gyfer yr **Wythnos Addysg Oedolion**. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys dros 100 partner, gyda dros 600 o ddigwyddiadau wedi eu rhestru ar lwyfan yr ymgyrch ac o leiaf 6,000 o bobl yn cymryd rhan mewn cyrsiau blasu a sesiynau gwybodaeth a chyngor. Ymwelodd 16,000 o ddefnyddwyr â'r llwyfan yn ystod mis Medi. Lluniwyd y llwyfan hwn i roi dolenni i ddarparwyr yn ogystal â chyngor a chymorth ehangach. Cyflwynwyd dyddiau thema i lywio peth o weithgaredd y digwyddiad ac wrth ochr hyn fe wnaethom gydlynu digwyddiadau polisi ac eiriolaeth cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys gweminar i ymchwilio gwybodaeth a gafwyd o'n Harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu a ffilm yn dangos dau ddysgwr yn sgwrsio gyda Simon Pirotte, Prif Weithredwr Medr.

Roedd partneriaid yr ymgyrch yn cynnwys Colegau Cymru, Prifysgolion Cymru, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Amgueddfa Cymru, UNISON Cymru, y Coleg Digidol, darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, TUC Cymru a llawer arall. Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i drefnu ymgyrch farchnata amlgyfrwng oedd yn cyfeirio cannoedd o bobl at gyngor, arweiniad a digwyddiadau ar wefannau Cymru'n Gweithio a'r Wythnos Addysg Oedolion. Cyflwynwyd Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion ym mis Medi, gyda straeon yr **enillwyr gwobrau** yn cael eu hyrwyddo wrth ochr yr Wythnos Addysg Oedolion. Cafwyd 80 eitem o sylw yn y wasg yn cynnwys sylw ar newyddion min nos ITV Cymru. Daeth dros 200 o westeion i'r seremoni wobrwyo yn cynnwys Lynne Neagle, yr Ysgrifennydd Addysg. Ym mis Mawrth cynhaliwyd gwobrau **Ysbrydoli! Tiwtoriaid** yn cydnabod llwyddiannau'r gweithlu ar draws y sector trydyddol, yn dangos gwaith llawr gwlad, cyflogaeth â chymorth, ESOL a dysgu Cymraeg. Ein noddwr yn y Senedd oedd John Griffiths AS ac ymunodd Vikki Howells, Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, â ni. Roedd ein partneriaeth ar gyfer Gwobrau Ysbrydoli! yn cynnwys Addysg Oedolion Cymru, Agored Cymru, Cymwysterau AIM, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prifysgolion Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.





## Sgiliau hanfodol

Fe wnaethom gynyddu ein eiriolaeth ar sgiliau hanfodol ar gyfer oedolion a phobl ifanc. Mae Arolwg Sgiliau Oedolion diweddaraf yr OECD, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024, yn rhoi sylw i welliannau real ac a groesawir yn sgiliau hanfodol pobl ifanc, ond ychydig iawn o newid a welir mewn sgiliau oedolion, gyda 8.5m o oedolion â llythrennedd neu rifedd isel, neu'r ddau. Roeddem yn flaenllaw wrth lunio ymateb y sector, gan gynnal **gweminar** (131 cofrestriad), gydag Andreas Schleicher, Cyfarwyddwr Addysg a Sgiliau OECD, ddim ond ddeuddydd ar ôl cyhoeddi'r data. Rydym yn parhau i ddadlau dros i Saesneg a mathemateg fod yn elfennau craidd mewn rhaglenni a phrentisiaethau 16-19 oed yn Lloegr, gan ddweud fod gan Loegr lai o ffocws na gwledydd eraill ar y pynciau hyn. Gwnaethom yr achos yn y cyfryngau, drwy ddigwyddiadau tebyg i'n **cynhadledd Saesneg, Mathemateg ac ESOL** a drwy gysylltu â gwleidyddion, yn cynnwys drwy roi tystiolaeth i Gynulliad Llundain a Phwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi. Gan weithio gyda Age UK, fe wnaethom gyhoeddi **ymchwil newydd** yn rhoi sylw i anghenion sgiliau hanfodol pobl hŷn, a lansiwyd gyda **gweminar** (114 cofrestriad) yn ystod yr Wythnos Addysg Oedolion.

Fe wnaethom barhau i gefnogi Awdurdodau Strategol Maerol gyda chomisiynu lleol a chyflenwi darpariaeth sgiliau hanfodol ac agweddau eraill o'r gyllideb addysg oedolion drwy ymchwil a gwerthuso. Fe wnaethom gyflwyno gwerthusiad o gyllideb addysg oedolion Manceinion Fwyaf am y cyfnod ers datganoli a rhannu dysgu o'n gwerthusiad o raglen rhifedd oedolion Multiply gyda rhanddeiliaid yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Mae ein **hadolygiad** o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn nodi mesurau polisi clir y medrir eu rhoi ar waith i gefnogi gwell deilliannau o fuddsoddiad WMCA mewn sgiliau yn Saesneg. Cafodd ein hadroddiad, a lansiwyd gan y Maer Richard Parker mewn digwyddiad i randdeiliaid rhanbarthol, ei groesawu gan WMCA a'r sector a rydym yn parhau trafodaethau gyda WMCA ar ffyrdd y gallwn gefnogi gweithredu. Fe wnaethom hefyd gefnogi Awdurdod Llundain Fwyaf gydag **ymchwil** ar effaith y cynnydd mewn costau byw ar fynediad i addysg oedolion yn Lloegr.

Rydym yn parhau i fod yn weithgar yn y Gymdeithas Ewropeaidd dros Addysg Oedolion (EAEA) a'r Rhwydwaith Sgiliau Sylfaenol Ewropeaidd (EBSN), gan rannu gwybodaeth o'n gwaith gyda darparwyr, ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi addysg oedolion ledled Ewrop. Fe wnaethom helpu EAEA ac EBSN i ddatblygu ymateb ar y cyd i arolwg OECD o sgiliau oedolion ar y lefel Ewropeaidd. Fe wnaethom hwyluso gweminar Ewropeaidd ar yr un thema, a ddenodd dros 200 o gofrestriad ar draws Ewrop. Fe wnaethom gyfrannu at banel EAEA ar effaith mewn addysg oedolion yng nghynhadledd flynyddol EAEA yn Helsinki, a rhannu canfyddiadau o'n gwaith ar sgiliau gwyrdd yng nghynhadledd ESBN yn Valladolid.

## Cyflogaeth



Bu Dysgu a Gwaith wrth galon trafodaethau polisi allweddol ar gyflogaeth a gostwng anweithgaredd economaidd. Bu dechrau treial o JobsPlus mewn 10 safle peilot yn uchafbwynt o'r flwyddyn. Mae JobsPlus yn gynllun cyflogaeth dan arweiniad y gymuned sy'n anelu i helpu pobl i waith drwy wasanaethau cyflogaeth ar y safle, cymorth cymunedol a chymhellion ariannol. Caiff y cynllun peilot ei ariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Sefydliad Dyfodol Ieuenctid. Mae Dysgu a Gwaith yn arwain y rhaglen gan gydweithio gyda Cymunedau sy'n Gweithio a'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, gyda chymorth ychwanegol gan MDRC, sefydliad ymchwil seiliedig yn yr Unol Daleithiau a gefnogodd dreialon gwreiddiol JobsPlus yn yr Unol Daleithiau, a naw cymdeithas tai.

Cyn yr etholiad ym mis Mehefin 2024, fe wnaethom gyhoeddi **Aiming high: An 80% employment rate and how to deliver it**, a alwodd am sicrhau cyfradd cyflogaeth o 80% yn y Deyrnas Unedig drwy ymestyn cymorth cyflogaeth, gweithio gyda chyflogwyr ar recriwtio a dylunio swyddi a buddsoddi mewn seilwaith cymdeithasol fel iechyd, sgiliau a gofal plant. Cafodd y nod o gyfradd cyflogaeth 80% ei mabwysiadu gan y Llywodraeth Lafur newydd. Rydym wedi parhau i roi gwybodaeth ar bolisi cyflogaeth a budd-daliadau, gan ymateb i bapur gwyn Get Britain Working Llywodraeth y DU gyda phapur polisi **Get Britain Working: The path to an 80% employment rate**, sy'n rhoi mwy o fanylion ar gynllun y Llywodraeth, pam ei fod yn bwysig a sut y gellir sicrhau llwyddiant.

Fe wnaethom gyflwyno **tystiolaeth** i'r Pwyllgor Gwaith a Phensiynau ar gyfer eu hymchwiliad i ddiwygio Canolfannau Byd Gwaith. Cyn cyhoeddi Papur Gwyrdd y Llywodraeth ar analluogrwydd a budd-daliadau anabledd, fe wnaethom gyhoeddi **The benefit trap**, papur yn ymchwilio pam fod y nifer sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd wedi cynyddu ac yn gosod argymhellion ar gyfer system well.

Buom yn gweithio gyda'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth a Chymdeithas Frenhinol Iechyd Cyhoeddus i roi gwybodaeth i'r Comisiwn ar gyfer Bywydau Gwaith Iachach (a gefnogwyd gan y Sefydliad Iechyd) gan gynhyrchu adroddiadau ar **amrywiadau lleol mewn deilliannau cyflogaeth, sut i gefnogi iechyd gweithwyr yn well** a sut i gefnogi gofalwyr di-dâl i gael mynediad i waith.

Cyhoeddwyd ein gwerthusiad aml-flwyddyn o **Gynllun Restart yr Adran Gwaith a Phensiynau**, mewn partneriaeth gyda Ipsos, lle gwnaethom ddynodi gwersi allweddol oedd wedi llywio cyflenwi'r Cynllun, datblygu rhaglenni'r dyfodol a'r sylfaen tystiolaeth ehangach ar gymorth cyflogaeth.

Fel cyd-gadeiryddion y Grŵp Cyflogaeth Ieuenctid, rydym wedi cynnull ein haelodau yn gyson i ddadlau dros well cymorth ar gyfer pobl ifanc. I gefnogi gweithredu'r Warant i Bobl Ifanc ac wyth cynllun arweiniol y Warant i Bobl Ifanc a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ym mhapur gwyn Tachwedd 2024, rydym wedi dechrau **prosiect** i ddangos yr angen am y Warant i Bobl Ifanc a deall sut y gellid ei weithredu'n llwyddiannus.



## Gwaith gwell


Ar adeg pan mae mwy o sylw i'r berthynas rhwng gwaith ac iechyd, rydym wedi creu a lledaenu tystiolaeth ansawdd uchel ar sut i greu gweithleoedd iach a chynhwysol. Drwy **ein gwaith gyda Health Equals**, fe wnaethom yr achos dros system cymorth cyflogaeth mwy cynhwysol, nodi sut y gall llywodraeth leol gefnogi preswylwyr i gael bywydau gwaith iachach, dynodi sut i sicrhau fod gweithio gartref yn iach a rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Gwaith Tŷ'r Arglwyddi ar Weithio Gartref.

Rydym yn parhau i brofi ac ymchwilio'r hyn sy'n gweithio i gefnogi cynnydd mewn gwaith. Mae hyn yn cynnwys cynghori Rhanbarth Dinas Lerpwl ar sut i wella cadw a dilyniant yn ogystal â chynyddu amrywiaeth eu gweithlu gofal plant. Drwy brosiect newydd a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Robertson, rydym yn profi sut y gellir addasu modelau rhyngwladol llwyddiannus o gynnydd mewn-gwaith ar gyfer ei gyflenwi yng Nghaeredin.

Cawsom lwyddiant sylweddol mewn adeiladu a lledaenu'r dystiolaeth ar sut i gynyddu buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant ac ehangu mynediad i addysg dechnegol ansawdd uchel. Fe wnaethom gyhoeddi **ymchwil** ar yr angen i ailfeddwl am lwybrau i yrfaoedd mewn technoleg drwy roi mwy o ffocws ar symudedd cymdeithasol. Mae ein **prosiect aml-flwyddyn** a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield yn ymchwilio buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau a sut mae gweithwyr yn ymateb i'r angen i gynyddu sgiliau a hyfforddi mewn economi mewn trosiant. Ategir hyn gan ymchwil a ariannwyd gan Sefydliad Elusennol Gatsby, sy'n anelu i ddeall yn well sut mae cyflogwyr a chyflogeion yn gwneud penderfyniadau am addysg a hyfforddiant technegol uwch.


# Ein cyrraedd mewn rhifau

**Cawsom 811 darn o sylw yn y cyfryngau yn 2024-25 ar gyfer ein hymgyrchoedd a'n hymchwil a dadansoddiad unigryw. Mae hyn yn gynnydd o 45% ar y flwyddyn flaenorol.**






Cafodd ein hymchwil polisi sylw sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol mewn print, ar-lein a darllediadau yn cynnwys yn The Times, The Guardian, The Financial Times, The Telegraph, The Economist, The New York Times, Big Issue, LBC, Times Radio, BBC News ac amrywiaeth eang o gyhoeddiadau lleol. Rhoddwyd sylw i'n gwaith hefyd yng nghyhoeddiadau'r sector yn cynnwys FE Week, FE News, Education Journal, Wonkhe, People Management, Personnel Today, Business Matters, HR Magazine, Business News Wales ac Energy Manager Magazine.




**Cafodd gwefannau Dysgu a Gwaith, Dysgu a Gwaith Cymru a'r Ŵyl Ddysgu 272,922 edrychiad yn y flwyddyn (2% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol).**

Bu cynnydd sydyn o amgylch cyhoeddi adroddiadau, yn arbennig ein rhaglen waith Ambition Skills, a digwyddiadau ar-lein yn cynnwys ar gyfer yr Wythnos Dysgu Gydol Oes ac yn ystod Wythnos Addysg Oedolion Cymru.

**Cynyddodd ein dilynwyr ar LinkedIn gan fwy na 1,150 eleni i 7,022.**

Cawsom 168,058 argraffiad a 2,683 o ymwelwyr unigryw.



Cafodd ein sianeli YouTube
**18,718 edrychiad**
gyda 83,622 munud
o ffilm wedi'i weld.




Fe wnaethom benderfynu eleni i ailffocysu ein strategaeth i ffwrdd o X (gynt Twitter).

**Agorwyd cyfrif Bluesky eleni a sicrhawyd 961 o ddilynwyr.**

# Dod â phobl ynghyd

**Rydym yn cynnal ystod o rwydweithiau, yn hyrwyddo drwy gynghreiriau ac yn cynnull a pobl sefydliadau i drafod materion llosg a chynyddu ein dylanwad a'n heffaith. Rydym yn sicrhau ffigurau gwleidyddol amlwg ac arweinwyr diwydiant i siarad yn ein digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb drwy gydol y flwyddyn.**

Fe wnaethom gynnal ein Confensiwn Cyflogaeth a Sgiliau yn Birmingham ym mis Gorffennaf. Noddwyd y digwyddiad gan Maximus, Clarion Futures, Sefydliad Dyfodol Ieuenctid, Sefydliad Edge a City & Guilds, a chofrestrodd 276 o bobl i ymuno. Cyflwynwyd ein Cynhadledd Saesneg, Mathemateg ac ESOL flynyddol ar-lein, gan ddenu 286 o bobl. Fe wnaethom hefyd gynnal gweminarau fel rhan o'r Wythnos Dysgu Gydol Oes, gyda ffocws ar sgiliau hanfodol mewn pobl hŷn a dysgu gyda thechnoleg yn ogystal â gweminarau eraill drwy gydol y flwyddyn yn ymchwilio data diweddaraf PIAAC a chanfyddiadau o'n hymchwil ar gyfer Health Equals. Yn ychwanegol, cynhaliwyd byrddau crwn polisi ar gyflogaeth anabledd a chyflogaeth ieuenctid.

Yng Nghymru, fe wnaethom gynnal gweminar yn ystod yr Wythnos Addysg Oedolion i lansio data ein Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu. Cynhaliwyd Confensiwn Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn yr hydref gyda dros 100 o bobl yn bresennol. Noddwyd y digwyddiad gan City & Guilds a'i gefnogi gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Serco. Fe wnaethom hefyd gynnal ein Diwrnod Rhwydweithio ESOL i gyflwyno diweddariadau ymchwil, sesiynau rhwydweithio a gweithdai ymarferol ar gyfer darparwyr ac ymarferwyr gyda'r nod o gefnogi a hybu'r sector ESOL yng Nghymru.



# Ein cyllidwyr

Adran Addysg Llywodraeth y DU
Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU
Age UK
Blagrave Trust
Central London Forward
Centre for Ageing Better
Centre for Progressive Policy
City & Guilds
Clarion Futures
Cronfa Genedlaethol y Loteri Genedlaetol
ESRC
Generation
Greater London Authority
Greater Manchester Combined Authority
Gweinyddiaeth Amddiffyn Llywodraeth y DU
Local Government Association
Llywodraeth Cymru
Maximus UK
Medr
Morley College
National Open College Network
Nuffield Foundation
Phoenix Group
Serco Limited
South East Strategic Partnership For Migration
The Edge Foundation
The Gatsby Charitable Foundation
The Health Foundation
The Robertson Trust
Ufi VocTech Trust
West Midlands Combined Authority
Youth Futures Foundation Limited
Y Brifysgol Agored

LEARNING AND
WORK INSTITUTE

**Cael yr wybodaeth ddiweddaraf.**

**Cymryd rhan. Ymgysylltu.**

Cofrestru i ddod yn

gefnogwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith

**learningandwork.org.uk**

**enquiries@learningandwork.org.uk**

**Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cenedlaethol/National Learning and Work Institute**
**Unit 1.23, St Martins House, 7 Peacock Lane, Caerlŷr/Leicester LE1 5PZ**
**Rhif cofrestru cwmni 2603322 | Rhif cofrestru elusen 1002775**

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, copïo neu drawsyrru'r gyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan delerau unrhyw drwydded yn caniatáu copïo cyfyngedig a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.